# CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH

**COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL – 7:10 y.h. Dydd Llun 28 o Orffennaf2025Ystafell Gymunedol, Ysgol Bro Cinmeirch**
**https://us02web.zoom.us/j/3946960616?omn=83025720257**

**Presennol:** Arwel Davies (Chair), Ian Evans (Vice Chair), Manon Davies, Bari Evans, Philip Williams, Edmund Evans, Stephen Williams

**1. Ymddiheuriadau**: Rhian Wyn Jones, Helen Jones,

**2. :Cyfraniad gan y cyhoedd**:  Dim.

**3. Cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2025**.

Cynigiwyd y rhain fel cofnod cywir: Cynigiwyd: Ian Evans Eiliwyd: Phil Williams

**4. Penodi Clerc newydd.**

Cytunwyd cynnal rownd recriwtio newydd ym mis Medi:
i. Byddai'r Clerc yn hysbysebu yn y Gadlas a'r Bedol (nid oedd gan y Bigwn rifyn mis Medi).
ii. Byddai'n hysbysebu tua 1 Medi ar wefannau Un Llais Cymru ac SLCC
iii Byddai hefyd yn gwneud JPEG o'r hysbyseb ac yn gofyn i'r Cynghorwyr ei dosbarthu ar Facebook.

**5. Cyllid**

i. Archwilio
a) Roedd y Clerc wedi ysgrifennu at Derek Evans o Archwilio Cymru yn gofyn am ddadansoddiad o sut yr oedd yr anfonebau amrywiol iawn ar gyfer y pedwar eich hyd at 2023-24 wedi'u llunio.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn ateb rhoedd yn ddim gwneud synnwyr.

a) Byddai'r Clerc yn ysgrinefy yn ôl at Mr Evans..

b) Roedd y Clerc wedi cael copi o dempled ffurflen yr Archwiliad gan Glerc Cyngor Tref Cricieth gan nad oedd wedi derbyn ateb gan Archwilio Cymru.

c), Dywedodd y Clerc, er bod y Cyngor wedi delio â llawer o'r beirniadaethau a wnaed gan yr archwilydd, mae rhai o ddogfennaeth (e.e. ar hawliad praesept, PAYE ac ati) ar goll o hyd. Felly, mae'n dal yn debygol y byddai Archwiliad 2024-25 yn cael ei feirniadu ar yr agweddau hyn.

d) Roedd y Clerc wedi dechrau gweithio ar Archwiliad 2024-25. Byddai'r Is-gadeirydd yn anfon manylion cyswllt yr archwilwyr mewnoll ato.

ii. Taliadau
a) Y Clerc (E.M. ab Owain) Costau Clerc Gorffennaf 2025 £239.70
b) Y Gadlas – Hysbyseb am Glerc £10
c) Y Glorian – Hysbyseb am Glerc £15
d) Ysgol Pantpastynog – Trip addysgol aychwanegol i'r cyricilwm £375.00

Cynigiwyd cymeradwyo'r rhain:

Cynigiwyd: Phil Williams Eiliwyd: Ian Evans. Pleidleisiodd yn unfrydol

iii Datganiad Llywodraethu Mewnol.

Cynigiwyd cymeradwyo'r datganiad hwn:

Cynigiwyd: Stephen Williams, Eiliwyd: Manon Davies. Pleidleisiodd: Unfrydol

**6. Laptop**

Roedd y Clerc wedi cael tri dyfynbris ar gyfer gliniaduron a meddalwedd gysylltiedig gan Catalist, Currys a siop HP.

Cynigiwyd bod y Cyngor yn derbyn y dyfynbris a roddwyd gan Catalist: Laptop £407, Gwrthfeirws £38 a phecyn Microsoft Office £179 (Cyfanswm £624) yn enwedig o ystyried enw da'r cwmni am ôl-ofal o ansawdd uchel.

Cynigiwyd: Stephen Williams, Eiliwyd: Phil Williams. Pleidleisiwyd: Unfrydol

**7. Atgyweirio ac adnewyddu asedau'r Cyngor.**

O ystyried cyflwr gwael llawer o hysbysfyrddau'r Cyngor, gofynnwyd i'r Clerc gael tri dyfynbris ar gyfer eu disodli.

**8. Torri Glaswellt.**

Gofynnwyd i'r Cadeirydd gysylltu â'r ddau grŵp cymunedol sy'n gofyn am gyllid ar gyfer torri glaswellt a gofyn am fanylion pellach.

**9: Grantiau: Llesiant Bloomers**

Ystyriodd y Cyngor gais am grant gan yr elusen uchod i bobl ifanc. Gan nad oedd tystiolaeth eu bod yn helpu pobl ifanc leol, gwrthodwyd y cais.

**10. Ceisiadau cynllunio**: Dim

**11 Cyfarfod nesaf**: 29ain Medi 2025.

**12. Unrhyw Fater Arall**. Trafododd y cyfarfod draffig cyflym yn yr ardal yn enwedig yn ardal Saron/Prion. Byddai'r Clerc yn rhoi hyn at yr agenda nesaf.